**EITEM AR YR AGENDA: 6**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 13eg Mawrth 2006 |
| ADRODDIAD GAN: | **Paul Claydon,**<br>**PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL**<br>**(Cyflwyno'r Gwasanaethau)** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am yr ymatebion a ddaeth i law i ymgynghoriad yr Awdurdod ynghylch Cynllun Gweithredu trydedd flwyddyn ei Gynllun Integredig Rholi Risg, "Cynnal y Momentwm". |

1. **CEFNDIR**

1.1 Yn Rhagfyr 2002, fe wnaeth y Dirprwy Brif Weinidog hi'n glir y dylid cael rhaglen i ddiwygio a moderneiddio'r fframwaith y mae'r gwasanaeth tân ac achub yn gweithredu o'i fewn. Un o elfennau allweddol y rhaglen honno oedd yr angen i awdurdodau tân lunio Cynlluniau Integredig Rheoli Risg, amlygir hwy hefyd yn nogfen Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru.

2. **CYFLWYNIAD**

2.1 Yn ei gyfarfod ar 19eg Rhagfyr 2005 fe gymeradwyodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Gynllun Gweithredu trydedd flwyddyn ei Gynllun Integredig Rheoli Risg, "Cynnal y Momentwm".

2.2 Anfonwyd hysbysiad at dros 500 o unigolion/sefydliadau i dynnu eu sylw at yr ymgynghoriad a'i fod ar gael ar wefan y Gwasanaeth. Anfonwyd datganiadau i'r wasg hefyd i dynnu sylw at y broses ymgynghori a bod y ddogfen ar gael. Anfonwyd copïau o'r cynllun i holl safleoedd y Gwasanaeth.

2.3 Buwyd yn briffio, mewn sawl ffordd, nifer o Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol a chynghorau i ymhelaethu ar gynlluniau'r Awdurdod.

2.4 O ystyried maint y ddiddordeb, penderfynwyd ychwanegu wythnos at y cyfnod ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad, sef symud y dyddiad cau o'r 1af o Fawrth hyd at yr 8fed o Fawrth 2006 er mwyn rhoi digon o amser i bob unigolyn a sefydliad oedd yn dymuno cyflwyno sylwadau, wneud hynny.

2.5 Bydd crynodeb manwl o'r ymatebion a ddaw i law yn cael ei adrodd i Weithgor Cynllun Risg yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 13eg o Fawrth 2006 ac i gyfarfod y Panel Gweithredol wedi hwnnw.

3. **ARGYMHELLION**

3.1 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad; ac

3.2 yn ddibynnol ar unrhyw argymhellion a gwelliannau gan Weithgor y Cynllun Risg, argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub, yn ei gyfarfod ar 27ain o Fawrth 2006, ei fod yn mabwysiadu'r cynllun gweithredu trydedd flwyddyn ar gyfer 2006/07.